



**Comisiynydd Heddlu a Throseddu  
Dyfed-Powys**

# **Y Gorchymyn Protocol Plismona 2011**

**Chwarter 4 2019/20 Crynodeb o Adroddiad Perfformiad**

## Cyflwyniad

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (PRSRA) 2011 yn sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn pobl ardal Heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt dros y plismona cyfan yn eu hardal. Mae gofyn iddynt ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif dros gyflenwad gweithredol y plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae Adran 70 PRSRA yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n gymwys i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Amlinella'r protocol hwn rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig â'r berthynas bedair rhan, sef y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabl, Panel Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Bydd pob un o'r grwpiau yn cadw at y 7 egwyddor a amlinellir yn y Safonau Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y grwpiau hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i'r berthynas rhyngddynt a bydd pob grŵp yn gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud i'r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi datblygu gwiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae hyn gyfwerth â 21 maes sydd wedi'u torri i lawr i 57 ardal weithredu yn ôl amryw feysydd busnes o fewn SCHTh, y mae 4 ohonynt wedi'u nodi'n barhaol yn Amherthnasol sy'n gadael 53 o feysydd gweithredu. Cwblheir y rhain yn chwarterol i ddangos cynnydd parhaus.

Mae pob adran yn derbyn sgôr RAG i dynnu sylw at unrhyw feysydd pryder

**Gwyrdd** – Cydymffurfio'n llawn, dim gwaith ychwanegol yn angenrheidiol

**Ambr** – Cydymffurfio'n rhannol, ychydig o waith ychwanegol yn angenrheidiol


**Coch** – Ddim yn cydymffurfio, nid yw'r ddyletswydd yn cael ei bodloni ar hyn o bryd

Mae crynodeb o'r gwiriad iechyd ar gael i'r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys Crynodeb Gweithredol o'r chwarter diwethaf.

## Crynodeb Gweithredol


Mae'r adroddiad a ganlyn yn ymdrin â chyfnod adrodd Ch4 y flwyddyn ariannol 2019/20 (Ionawr/Chwefror/Mawrth 2020)

### Cymhariaeth Statws CAG



Does **DIM UN** o'r meysydd gweithredu wedi'u marcio'n goch

Bu cynnydd yn nifer y meysydd sydd wedi'u marcio'n ambr o 13 i 10. Mae hyn yn ymwneud â rhai meysydd yn cael eu heffeithio gan yr haint coronafeirws a rhai arweinwyr busnes yn adolygu statws CAG eu meysydd yn agosach.



Ar hyn o bryd, does dim un maes gweithredu wedi'i farcio'n goch - anghydfurfiio.

Mae pob maes yn cydymffurfio'n rhannol o leiaf, gyda rhai categorïau'n sefyll allan fel rhai sydd angen mwy o sylw oherwydd y canran o ambr o fewn y categorï:

17b - Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun - (3/5) 60%

17g - Cynnal heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal yr heddlu - (4/7) 57% ambr

17h - Ymrwymo i gytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill, a chyrrff a phartneriaid plismona eraill - (2/3) 67% ambr

Dyletswydd	Rhif	Camau sy'n Ofynnol	Statws CAG	Diweddariad ar Gynnydd Ch4 (Ion/Chwef/Maw 2020)
Gosod cyfeiriad strategol ac amcanion yr Heddlu trwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n gorfod ystyried y Gofyniad Plismona Strategol	17a	Datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7)		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017. Yn 2018, penderfynodd CHTh bod y Cynllun digon eang ei fod dal yn berthnasol ar gyfer hyd tymor y Cynllun. Yn dilyn y cyhoeddiad ynglŷn â gohirio'r etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, ceisiwyd a chafwyd cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throseddu i estyn hyd tymor y Cynllun Heddlu a Throseddu o flwyddyn arall. Fodd bynnag, bydd gwaith yn parhau yn ystod 2020/21 i hysbysu datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu nesaf.
		Datblygu Cynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddu i gefnogi cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu		Datblygwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu a'i lansio'r wythnos yn cychwyn 27 Mawrth 2017 ac mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Cyflenwi Heddlu a Throseddu. Mae cyfarfodydd Bwrdd Plismona'n canolbwyntio ar bob un o ganlyniadau arfaethedig y Cynllun er mwyn monitro cyflenwi'r blaenoriaethau. Mae'r cynllun wedi'i estyn yn ffurfiol i 2022 yn unol â'r dyddiad newydd ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.
		Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i'r diben		Mae'r Panel Heddlu a Throseddu wedi cynnal adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddu; gan geisio barnau gan Awdurdodau Lleol ar p'un a yw'r Cynllun yn parhau yn addas i'r diben ac a yw'n cynnwys yn briodol natur y bygythiadau i'n cymunedau. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ar 15 Chwefror 2019, pan ddaethpwyd i'r casgliad bod y Cynllun yn ddigon eang iddo barhau yn addas i'r diben. Ym mis Mawrth 2020, cafwyd cymeradwyaeth y Panel Heddlu a Throseddu i estyn y Cynllun flwyddyn arall, yn unol â'r dyddiad newydd ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.
Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun	17b	Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i gefnogi craffu effeithiol		Mae trefniadau craffu ffurfiol mewn grym ac yn parhau yn ystod yr argyfwng COVID-19. Ar ben hynny, cynhwysir cynrychiolwyr CHTh yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer COVID-19, gan sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth lawn am y pwysau sydd ar y sefydliad a'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith.
		Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		FfLIC wedi'i adolygu ar gyfer 2020/21, ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Archwilio, a'i gyhoeddi'n unol â hynny.
		Sefydlu amserlen flaengar o weithgareddau ar sail risg i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr Heddlu		Mae'r CHTh wedi bod yn rhyddhau ei ofynion craffu drwy gydol y pandemig o ran canolbwyntio ar effaith y cyfyngiadau symud ar berfformiad yr heddlu a chyflenwi gwasanaeth. Nid yw hyn wedi'i gipio drwy'r craffu ffurfiol 'rheolaidd' gan ei fod yn amser cyflym, yn seiliedig ar bresenoldeb cyfarfod a desg yn bennaf.  Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu cynnydd yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu, a fydd yn dylanwadu ar gynllun craffu 2020/21. Bydd y flwyddyn hefyd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu a dderbyniwyd sy'n aros nas cadarnhawyd eu bod wedi'u cwblhau eto.

		Sicrhau bod barnau'r cyhoedd yn cael eu cynrychioli yng ngwaith craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu		Er nad yw'r ffigurau'n dangos unrhyw gysylltiad cyhoeddus o ran awgrymu themâu craffu, mae dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig wedi bod yn gysylltiedig â'r darn mwyaf o waith y chwarter hwn, sef adolygiad o Ddesg Bregusrwydd yr Heddlu. Mae angen ystyriaeth yn y dyfodol o ran sut i wella dylanwad a chysylltiad y cyhoedd a phartneriaid o ran dewis themâu craffu. Mae angen blaengynllunio drwy Covid-19 a thu hwnt.
		Trosolwg a gweithrediad ar argymhellion arolygiaethau allanol		2/3 i'w gwblhau o fewn yr amserlen – roedd 1 adroddiad 1 diwrnod yn hwyr gan nad oedd yr Heddlu'n medru ei ddarparu o fewn yr amserlen oherwydd pwysau'n ymwneud â Covid-19.
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr Heddlu	17c	Datblygu fframwaith a strwythur perfformiad sy'n caniatáu dealltwriaeth gynyddol o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu		Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi datblygu gwiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt. Mae'r gwiriad iechyd nawr yn cael ei wirio bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod dal yn berthnasol ac yn rhoi cyfle i arweinwyr busnes adlewyrchu ar gofnodion blaenorol a newid adrodd yn ôl yr angen. Rhyddhawyd fersiwn 2 ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf hon ac mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn ar gyfer paratoi fersiwn 3. Y nod yw ei gael yn barod fis Mehefin.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu sy'n cynnwys y Bwrdd Atebolrwydd Plismona sy'n gyfarfod cyhoeddus lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad yr Heddlu. Yn ychwanegol ceir cyfarfodydd Bwrdd Plismona bob 3 wythnos sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol wedi'u cysylltu â'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Ymhlith yr eitemau agenda sefydlog y mae Cyllid ac Adnoddau Dynol Strategol. Mae trefniadau llywodraethu'n parhau dros yr argyfwng COVID-19, gyda ffocws cryf ar barodrwydd sefydliadol ac effaith COVID-19
		Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl		Rhoddydd llythyr ffurfiol yn rhoi manylion amcanion ar gyfer 2019/20 i'r Prif Gwnstabl ym mis Ebrill 2019. Mae trafodaethau wedi cychwyn mewn perthynas ag amcanion 2020/21.
Penderfynu ar y gyllideb, neilltuo asedau ac arian i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr Heddlu	17ch	Hysbysu penderfyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r praesept		Parhaodd gwaith adolygu manwl yn ystod 2019/20 gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r CHTH er mwyn hysbysu ei ystyriaethau mewn perthynas â'r praesept. Roedd hyn yn cynnwys nifer o drafodaethau gyda Phrif Swyddogion a seminar lle'r oedd y CHTH, aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ac aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu'n bresennol. Yn y seminar, soniodd y PG a'r CC am sefyllfa gyfredol yr heddlu a'r heriau disgwylidiedig ar gyfer y blynyddoedd i ddod, a arweiniodd at ddatblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 20/21-25/26, y Strategaeth Gyfalaf, y Strategaeth Rheoli Trysorlys a Chronfeydd Wrth Gefn. Cefnogwyd cynnig CHTH ar gyfer praesept 2020/21 yn unfrydol gan y Panel Heddlu a Throseddu.
		Gosod y cynllun ariannol tymor Canolig		Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i osod a'i ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Chwefror 2020 a'i gefnogi'n unfrydol gan yr aelodau Panel.
		Ariannu rhaglen gyfalaf i roi asedau priodol i'r heddlu i gyflenwi		Gwaith manwl wedi'i gyflawni yn 2019/20 i ystyried a datblygu rhaglen gyfalaf tymor hirach (10 mlynedd) a oedd yn ffurfio rhan o'r cynllun ariannol tymor canolig, y Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 20/21. Ystyriodd y Panel

		gwasanaethau plismona effeithiol		Heddlu a Throseddu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Chwefror 2020 a'i gefnogi'n unfrydol gan yr aelodau.
Penodi'r Prif Gwnstabl	17d	Penodi'r Prif Gwnstabl		Mark Collins wedi'i benodi'n Brif Gwnstabl o 18 Rhagfyr 2016 ar gytundeb tymor penodol o 5 mlynedd
Diswyddo'r Prif Gwnstabl	17dd	Dilyn proses a amlinellir yn Rhan 2 Atodlen 8 i Ddeddf 2011 a rheoliadau a wnaed o dan Adran 50 Deddf yr Heddlu 1996(a)		Amherthnasol
Cynnal heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal yr heddlu	17e	Sicrhau Gwerth am Arian		Mae cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer ymdrechu i gael Gwerth am Arian wedi'u gwreiddio drwyddi draw'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol gydag Archwiliad Mewnol ac Allanol yn ceisio sicrhwydd bod trefniadau priodol wedi'u sefydlu i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn nefnydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl o adnoddau. Yn ogystal, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad gwerth am arian penodol ar drefniadau cydweithio, sydd wedi gwneud nifer o argymhellion. Mae'r PSC yn cymryd rhan yn nifer o gyfarfodydd llywodraethu'r heddlu sydd yn ystyried agweddau gwerth am arian yn rheolaidd.
		Cydymffuriad statudol ystadau yn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer defnydd gweithredol		Mae'r sgôr Cynnal a Chadw Arfaethedig Statudol wedi gostwng ychydig, yn bennaf oherwydd yr oedi o ran sicrhau cliriad fetio ar gyfer y profi trydanol sefydlog. Fodd bynnag, mae ymdrech cydunol yn awr i roi sylw i hyn a'r profion dyfeisiau cludadwy. Mae'r gwaith asesiad risg tân yn cael ei gydlynu gan yr Adran Iechyd a Diogelwch, sy'n adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth.
		Archwilio cyfleoedd i ostwng effaith amgylcheddol		Mae'r Grŵp Cynaliadwyedd wedi ceisio'r ymrwymiad gan adrannau ar draws yr heddlu, ac mae manylion hyn yn cael eu troi'n gynllun gweithredu a fydd yn cael ei gyflwyno dros y 12 mis nesaf. Mae'r defnydd o bapur wedi'i adolygu a gofynnwyd i bob adran leihau eu defnydd. Mae'r prosiect goleuadau Deudau Allyrru Golau wedi cychwyn, ac mae'r broses o ddewis gwneuthurwr a dylunio manwl yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Mae cyfleusterau gwefru ceir yn cael eu cynllunio.  Ar ddiwedd y chwarter, cychwynnodd y pandemig coronafeirws, sy'n golygu y bu'n rhaid atal y gwaith cynaliadwyedd am y tro wrth i Covid-19 gael blaenoriaeth.
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd ariannu allanol		Mae sganio gorwel dal yn digwydd bob dydd. Cafwyd sgursiau yn ddiweddar gyda'r Swyddfa Gartref er mwyn trafod y gronfa Strydoedd Mwy Diogel a sut y gellir defnyddio hyn yn lleol.
		Archwilio ac uchafu ar gyfleoedd menter nawdd		Mae gwaith ymchwil yn cael ei gynnal ar draws SCHTh eraill er mwyn sefydlu lefel y nawdd a gyflawnwyd ag ef a gweithdrefnau nodd y gellir eu dyblygu. Cyflwynwyd cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer nawdd dros y cyfnod diwethaf.

		Gweithredu a chynnal cofrestr risg i adnabod a lliniaru ar risgiau i'r SCHTh a'r heddlu		<p>Mae SCHTh yn ymwybodol o gofnodion yng nghofrestr risg yr Heddlu ac yn cael eu diweddarau gan Ymgynghorydd Rheoli Parhad Busnes a Risg yr Heddlu am unrhyw risgiau sy'n debygol o effeithio ar y swyddfa.</p> <p>Mae gan SCHTh ei chofrestr risg ei hun, a gafodd ei hadnewyddu ym mis Rhagfyr 2019 a'i chyfathrebu i holl aelodau staff SCHTh. Mae'r gofrestr nawr yn ddogfen weithio ac mae'n cael ei defnyddio'n llawn. Dangosir hyn gan y defnydd yn ystod pythefnos olaf mis Mawrth pan gafodd risgiau ychwanegol eu nodi, eu cofnodi a'u monitro er mwyn clymu â'r pandemig Coronafeirws a gychwynnodd yn ystod mis olaf y chwarter hwn.</p>
		Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh		Mae amcanion Proffil Datblygu ac Asesu yn cael eu cynnal ar gyfer holl aelodau staff SCHTh, sy'n cynnwys trafodaethau ynghylch anghenion datblygu a hyfforddi. Mae cyllideb benodol ar gael ar gyfer hyfforddiant er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol.
Creu cytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau eraill, a chyrrff a phartneriaid plismona eraill	17f	Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â'r Weledigaeth Blismona ar gyfer Cymru		Mae lle pendant i gydweithio ar agenda Grŵp Plismona Cymru Gyfan. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n adolygu cydweithio i weld pa un ai a yw'r mwyaf yn cael ei wneud o gyfleoedd, a pha un ai a oes modd gwneud mwy. Mae'r adroddiad wedi'i dderbyn ac mae'n cael ei ystyried yn weithredol cyn y cynhelir trafodaeth ehangach.
		Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill		Rydyn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid allanol ar ddatblygu prosiectau sy'n cwmpasu tir cyffredin. Mae'r 4 Heddlu'n parhau i gydweithio ar y prosiect Cronfa Ymyrraeth Gynnar leuenctid ac maen nhw'n cynnal trafodaethau er mwyn ystyried prosiect ar gyfer y Gronfa Gwaddol leuenctid yn y dyfodol. Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda sawl partner allweddol ledled Sir Gaerfyrddin er mwyn cyflwyno cynnig prosiect i'r Swyddfa Gartref o dan Gronfa Strydoedd Mwy Diogel, ac yr ydym nawr yn disgwyl y canlyniad.
		Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu i graffu ar gytundebau cydweithio.		Daeth y CHTh Llywelyn yn Gadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2019, ac mae wedi cyflwyno strwythur newydd er mwyn cefnogi craffu ar drefniadau cydweithio. Mae'r ymagwedd newydd hon yn sicrhau ymagwedd thematig a chanolbwyntiedig tuag at graffu ar gydweithio. Mae Blaenraglen Waith mewn grym ar gyfer tymor CHTh fel cadeirydd i graffu ar amrediad o drefniadau cydweithio.

<p>Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith</p>	<p>17ff</p>	<p>Datblygu a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu a Chynllun Gweithredu SCHTh, gan gynnwys rhoi cyfleoedd i gymunedau lleol hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau a hyrwyddo gwaith CHTh a'r PG yn rhagweithiol</p>	<p>Fel tîm Ymgysylltu, yn ystod Ch4, adolygom ein Strategaeth Ymgysylltu er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'n gwaith yn unol â'r ymrwymadau a nodir ynddi. Yr oeddem yn fodlon ein bod ni, fodd bynnag, o ystyried y pandemig coronafeirws a gyrhaeddodd fis Mawrth, roedd yn rhaid inni ddechrau ystyried ein hymagwedd ymgysylltu. Gan hynny, rhoddwyd marc Amber ar gyfer cynnydd oherwydd bu'n rhaid inni ddechrau newid y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhoi diweddariadau / gwybodaeth iddynt am waith CHTh/SCHTh.</p> <p>Yr ydym yn parhau i adolygu ein blaenoriaethau ymgysylltu'n rheolaidd, ochr yn ochr â blaenoriaethau'r CHTh yn y maes hwn, ac yn sicrhau bod tasgau brys yn cael eu blaenoriaethu. Mae'r gweithgarwch hwn yn hollbwysig inni tra'n bod ni dal yn "anghyflawn" fel tîm, gydag un aelod staff ar absenoldeb salwch tymor hir.</p> <p>Daeth y gwaith ymgymghori a gynhaliwyd ar ein rhan gan Hafan Cymru i ben yn ystod Ch4. Roedd dros 800 o bobl ifainc yn rhan o'r ymgynghoriad. Cynhyrchodd Hafan Cymru adroddiad a fydd yn cael ei ystyried gan y CHTh a HDP. Hefyd, cynhaliom Gynhadledd Ieuencid ddechrau Mawrth lle y rhannwyd y canlyniadau – barn pobl ifainc – â llu o bobl a oedd yn bresennol yn y gynhadledd. Roedd gan bawb ohonynt gysylltiad â'n cymunedau lleol a gweithio gyda phobl ifainc. Addawodd y CHTh y byddai'n rhoi ystyriaeth fanwl i'r canfyddiadau wrth gynllunio ar gyfer dyfodol plismona lleol.</p> <p>Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y praesept heddlu i ben yn ystod Ch4. Hysbysodd y canlyniadau benderfyniad CHTh ar osod elfen praesept heddlu'r dreth gyngor. Cymerodd 697 o breswylwyr y cyfle i ddweud eu dweud am y mater pwysig hwn. Cafwyd trafodaethau pellach gyda phartneriaid o gwmpas y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, a chyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ar ein camau arfaethedig nesaf. Penderfynwyd y byddem yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall yn ystod Ch1 2020-21 er mwyn cael gwybodaeth gan y cyhoedd yn uniongyrchol sut a phryd y byddai'n well ganddynt ymgysylltu â'r CHTh. Mae'r wybodaeth hon yn hollbwysig ar gyfer ein cynorthwyo i ddatblygu ein hymgysylltiad â dioddefwyr, ac ymgysylltu yn gyffredinol. Drwy'r arolwg, byddwn hefyd yn casglu enwau a manylion cyswllt dioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol / y rhai sy'n agos at ddiodefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n dweud y byddent yn hapus i rannu eu barn am daith diodefwyr drwy'r system cyfiawnder troseddol â'r CHTh a phartneriaid. Yr ydym yn gobeithio datblygu cronfa ddata o'r rhai sy'n fodlon inni gysylltu â nhw. Yn yr un modd, o'r ymgynghoriad hwn, byddwn ni'n medru cynhyrchu cronfa ddata o'r rhai sydd eisiau cael eu diweddarau a'u hysbysu am weithgarwch ymgysylltu lleol CHTh, gan gynyddu cyfleoedd i breswylwyr ddweud eu dweud a dylanwadu ar benderfyniadau.</p> <p>Yn ystod Ch4, cwblhawyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd HDP/CHTh, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2020. Roedd gan staff ymgysylltu'r cyfle i adolygu'r drafft er mwyn sicrhau fod barn CHTh ac aelodau'r cyhoedd yr oeddem wedi ymgynghori â nhw yn cael eu cynnwys yn y Cynllun ar y cyd.</p> <p>Ar 6 Mawrth, cynhaliodd CHTh ei Gynhadledd Gŵyl Ddewi flynyddol, a oedd yn canolbwyntio eleni ar Blismona mewn Ardal Wledig. Gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol a chynrychiolwyr cymunedol i glywed gan siaradwyr a sefydliadau amrywiol a oedd yn arbenigo mewn materion cefn gwlad. Hefyd, roedd cyfle i holi cwestiynau a rhannu barn yn ystod y digwyddiad.</p>
---	-------------	---	---



				<p>Gwahoddodd CHTh Gynghorwyr a chynrychiolwyr cymuned eraill i'r Pencadlys i weld sut mae ei ailfuddsoddiad mewn isadeiledd TCC wedi effeithio'n gadarnhaol ar waith HDP â'u llygaid eu hun. Rhoddwyd cyfle i'r rhai a oedd yn bresennol i holi cwestiynau a mynegi eu barn wrth y rhai a oedd yn bresennol, gan gynnwys uwch swyddogion HDP. Ystyriodd yr uwch swyddogion hyn y sylwadau a gyflwynwyd, gan addo cyflwyno newidiadau i rai gweithgareddau yn syth. Er enghraifft, dywedodd y Prif Gwnstabl y byddai cyfarfodydd cymunedol rhwng yr heddlu a'r cyhoedd yn cael eu hailgyflwyno yn yr ardaloedd sydd eu heisiau – roedd hyn o ganlyniad i sylwadau gan Gynghorwyr a oedd yn cynrychioli eu cymunedau.</p> <p>Ar 11 Chwefror, cynhaliodd y CHTh Ddigwyddiad Ymgysylltu Cymunedol yn Sir Benfro. Ymwelodd y CHTh â grwpiau / sefydliadau lleol – megis Canolfan Ieuenctid Hwlffordd a Phrosiect Ieuenctid a Chymuned Garth – i'w hysbysu am ei rôl a thrafod gwaith y grwpiau. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Neyland er mwyn trafod pryderon a materion lleol penodol, a gwahoddodd y CHTh y Tîm Plismona Bro Lleol i rannu materion gweithredol.</p> <p>Cyhoeddwyd rhifyn mis Mawrth o gylchlythyr CHTh, Cyswllt Cymunedol, ym mis Mawrth 2020. Yr oedd yn cynnwys gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan y CHTh a'i Swyddfa yn ystod y 3 mis blaenorol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y praesept heddlu.</li> <li>- Gwybodaeth am Gynhadledd Ieuenctid a Chynhadledd Dydd Gŵyl Dewi CHTh.</li> <li>- Ymweliad yr Angel Cyllyll â'r Drenewydd a'r gwaith a wnaed gan HDP, SCHTh a phartneriaid.</li> <li>- Ymagwedd newydd tuag at ariannu cymunedol, cyllidebu cyfranogol, y mae'r CHTh wedi buddsoddi'n helaeth ynddo, lle y bydd y cymunedau eu hun yn wneuthurwyr penderfyniadau allweddol o ran sut y bydd yr arian yn cael ei wario.</li> <li>- Buddsoddiad CHTh yn wardiau Glan-y-môr a Thyisha yn Llanelli, gyda thystiolaeth o'r ffordd y mae'r buddsoddiad hwn eisoes yn gwneud gwahaniaeth i'r ardal leol a'r preswylwyr.</li> <li>- Roedd y mater hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y gwasanaethau y mae CHTh wedi'u comisiynu. Gellir cael mynediad at rain am gymorth a chynghor.</li> </ul> <p>Ar 17 Chwefror, cynhaliodd y CHTh a'r PG gyfarfod byw ar Facebook yn dilyn cyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ar Gampws Caerfyrddin Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Roedd hwn yn gyfle i drafod rolau CHTh a'r PG, eu blaenoriaethau ar y pryd, ateb cwestiynau a rhoi gwybodaeth a diweddariadau.</p>
		<p>Datblygu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl SCHTh, gan gynnwys cyfleoedd i gymunedau lleol hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau</p>		<p>Yr ydym yn parhau i hyrwyddo ein gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori gan ddefnyddio amrediad eang o ddulliau: Cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg, ar dafod leferydd wrth grwydro, gyda help HDP a phartneriaid, yn ddwyieithog, ac ar ffurf electronig a phapur. Er enghraifft, defnyddiwyd pob un o'r uchod yn ymgynghoriad CHTh ar y praesept heddlu. Yn ogystal, gall unigolion gysylltu â SCHTh dros y ffôn, drwy e-bost, drwy gyfryngau cymdeithasol, drwy lythyr ac wyneb yn wyneb. Yn ystod Ch1 2020-21, byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch sut y byddai'n well ganddynt ymgysylltu â'r CHTh.</p> <p>Yn ystod CH4, cychwynnodd trafodaethau gyda sefydliad lleol er mwyn ceisio trefnu hyfforddiant ar gyfer staff o ran cynhyrchu ein fersiynau hawdd eu darllen o ddogfennau a</p>

				<p>chyfathrebiadau. Mae ein gwaith gyda phobl ifainc yn parhau drwy ein Fforwm Ymgysylltu a'n perthynas â Hafan Cymru a Hywel Dda. Sicraom fod lleisiau'r rhai a ymatebodd i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael eu cynrychioli yn y Cynllun Terfynol. Wrth inni barhau i ddatblygu'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu o ganlyniad i'r haint coronafeirws yn ystod Ch1 2020-21, byddwn yn edrych i sicrhau ein bod ni'n rhoi cymorth i bawb i gyfrannu i'n gwaith.</p>
		Ymateb i bryderon cymunedol mewn modd prydlon		Ymdriniwyd â phob ymateb o fewn 30 diwrnod gwaith.
		Ennyn diddordeb preswylwyr mewn cyfrannu at weithgaredd sicrwydd a chraffu		<p>Mae ein sylfaen gwirfoddolwyr dal yn iach iawn, yn enwedig yn y maes ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, lle y bu llawer o ffocws SCHTh ar weithredu ail gam y Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfeydd Annibynnol. Ymgwymerwyd â hyn drwy waith partneriaeth agos â thîm arweinyddiaeth dalfeydd HDP ac y mae wedi arwain at newidiadau i'r ffordd y cedwir cofnodion dalfeydd a phrosesau dalfeydd. Telir sylw arbennig i gofnodion achos carcharorion sy'n agored i niwed, megis y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl neu bobl ifainc. Mae gweithredu'r Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfeydd yn llwyddiannus wedi galluogi SCHTh i ymateb yn brydlon ac effeithlon er mwyn cynnal goruchwyliaeth annibynnol o ddalfeydd yn ystod y pandemig COVID-19, pan mae ymweliadau wyneb yn wyneb wedi'u hatal.</p>
		Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch i ddiodefwyr a phobl fregus		<p>Ar y cyfan, mae gwasanaethau'n arddangos gwelliant mewn canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, yn unol â dychweliad data craidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Profwyd rhai materion mewn perthynas â gostyngiad yn y nifer sy'n defnyddio gwasanaeth Goleudy - mae hyn yn cael ei drin drwy'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad annibynnol. Nid oes cwynion wedi'u derbyn ar gyfer unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth CHTh.</p>
Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer swyddogaethau swydd y Prif Gwnstabl a'r rheini o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth	17g	Fel y nodir yn 17c		
Cyhoeddi gwybodaeth a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gwybodaeth y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ei hystyried yn angenrheidiol i alluogi i bobl sy'n byw yn ardal yr heddlu	17ng	Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Lleol Etholedig		<p>Pob blwyddyn, mae CoPaCC (Cymharu Comisiynydd Heddlu a Throseddau – arbenigwyr Llywodraethu'r Heddlu) yn asesu sut mae swyddfeydd comisiynydd heddlu a throseddau (SCHTh) yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ar gyfer tryloywder. Rhoddir "Nod Ansawdd Agored a Thyloyw" CoPaCC bob blwyddyn i'r SCHTh hynny y bernir eu bod wedi cyrraedd safon foddhaol.</p> <p>Ym mis Chwefror 2020, cafodd y swyddfa wybod ei bod wedi llwyddo i sicrhau Nod Ansawdd "Tryloywder SCHTh" CoPaCC am yr ail flwyddyn yn olynol, ynghyd â 27 SCHTh arall.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod SCHTh yn cadw ei lle mewn perthynas â chyhoeddi, mae'r Swyddog Cymorth Cydymffurfiaeth a Pherfformiad yn gwirio'r wefan yn rheolaidd er mwyn sicrhau</p>

i fynd i'r afael â pherfformiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl			bod pob dim yn ddiweddar ac yn adlewyrchu gwaith cyfredol y swyddfa bob amser.
	Cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygyrch a hawdd ei gyrraedd		Mae'r Nod Ansawdd Tryloywder yn dangos ansawdd y wybodaeth sydd ar gael ar y wefan a rhwyddineb hygyrchedd i bawb.
	Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg		<p>Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i rym ar 22 Mawrth 2016. Mae'r prif ddyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n mynnu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylid ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr unig safon nad yw SCHTh yn cydymffurfio â hi yw'r sain yn y lifft, sydd ddim ar gael yn Gymraeg. Yn y gorffennol, penderfynodd y Bwrdd Gweithredol na fyddai'r sain yn cael ei diweddarau'n syth oherwydd y gost. Erbyn hyn, mae amcanbrisiau wedi'u derbyn ar gyfer y gwaith hwn, ac mae trafodaethau'n parhau rhwng y Cyfarwyddwr Ystadau a'r Pennaeth Staff ynghylch hyfywra datblygu hyn.</li> <li>• Ni chofnodwyd UNRHYW achos o dorri Safonau'r Gymraeg gan SCHTh yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac ni dderbyniwyd UNRHYW gwynion mewn perthynas â chydymffurfiaeth y swyddfa â'r safonau.</li> <li>• Hyfforddiant – Rhoddir cyfle i holl aelodau staff SCHTh dderbyn gwersi Cymraeg. Nid dderbyniwyd y cynnig hwn gan unrhyw aelod staff eleni.</li> <li>• Hyfforddiant – Cymerodd 5 aelod staff ran mewn cwrs ar gyfer gwella eu Cymraeg ym mis Tachwedd 2019. Lluniwyd y cwrs i roi mwy o hyder i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn eu rolau wrth gyfathrebu â siaradwyr Cymraeg. Nod y diwrnod oedd adeiladu ar y sgiliau Cymraeg ysgrifenedig sydd ganddynt yn barod, a'u helpu i deimlo'n fwy hyderus wrth wynebu sefyllfaoedd megis paratoi e-byst, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, llythyrau, adroddiadau ac ati.</li> </ul>
		Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl yn rhagweithiol	Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yn lleol ac o fewn cyhoeddiadau cenedlaethol ar straeon newyddion allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a gomisiynir. Mae'r wefan yn cael ei diweddarau'n llawn â gwybodaeth gwasanaeth. Darperir diweddariadau gwasanaeth yn ystod y pandemig Covid-19.
Cydymffurfio â'r holl geisiadau ffurfiol rhesymol gan y Panel i fynychu eu cyfarfodydd	17h	Presenoldeb chwarterol mewn cyfarfodydd Panel Heddlu a Throseddau	Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi mynychu'r holl gyfarfodydd Panel Heddlu a Throseddau, ynghyd â swyddogion statudol – Y Pennaeth Staff a'r Prif Swyddog Ariannol. Mae'r cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu'n debygol o fod yn gyfarfod rhithwir.
		Darparu dogfennau i'r Panel Heddlu a Throseddau yn unol â'u ceisiadau	Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddau a SCHTh wedi sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth a dogfennau yn brydlon yn unol â'u ceisiadau. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn annog ymgysylltiad ac yn croesawu cynrychiolwyr o'r Panel Heddlu a Throseddau ar fforymau eraill megis y Bwrdd Atebolrwydd Plismona, y Bwrdd Comisiynu a'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

		Cyswllt rheolaidd rhwng SCHTh a'r Panel Heddlu a Throseddu i gefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol		Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Panel Heddlu a Throseddu a SCHTh wedi cefnogi ymgymryd â dyletswyddau statudol ar gyfer y ddwy ochr. Mae trafodaethau diweddar wedi bod mewn perthynas â'r cynllun blynyddol ar gyfer craffu.
Paratoi a chyhoeddi adroddiad adroddiad blynyddol	17i	Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r Panel ar y ffordd y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cyflawni yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u gosod o fewn y Cynllun		Yn ystod Ch4, aeth Tom Woodrow o gwmni Geek Media gyda'r CHTh i ambell un o'i gyfarfodydd a'i ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn ffilmio clipiau fideo ar gyfer y cynhyrchiad fideo o'r Adroddiad Blynyddol. Trafodwyd amserlenni a chynlluniau a chytunwyd arnynt, ond gall y cyfyngiadau coronafeirws effeithio ar hyn. Roedd ambell ffilm fod cael ei recordio ddiwedd Ch4, ond nid oedd modd inni gwblhau'r gwaith gan fod digwyddiadau wedi dechrau cael eu canslo. Bydd gwaith yn parhau ar yr Adroddiad Blynyddol yn ystod Ch1 2020-2021.
Monitro'r holl gwynion a wneir yn erbyn swyddogion a staff, a bod yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl	17l	Trin cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl		Derbyniwyd tair cwyn a oedd yn ymwneud â'r un mater, ynghyd â dwy gwyn ddiwedd y chwarter diwethaf – cyfanswm o 5 cwyn yn erbyn y PG mewn perthynas â'r un mater – gyda phob un ohonynt yn arwain at benderfyniad i beidio â chofnodi.
		Cynnal trosolwg dros achosion o gwynion yn unol â'r hyn a ofynnir gan aelodau unigol o'r cyhoedd		Mae nifer yr achosion goruchwylio wedi lleihau'n raddol dros y flwyddyn ddiwethaf – gyda Swyddfa'r Comisiynydd nawr yn goruchwylio un achos mawr yn unig.
		Craffu ar y ffordd y mae'r Heddlu yn trin cwynion		Nid oes unrhyw waith hap samplu pellach wedi'i gynnal yn ystod y chwarter hwn oherwydd y Diwygiad Cwynion a chaniatáu amser i'r newidiadau hynny ddigwydd yn effeithiol.
		Sicrhau bod systemau a phrosesau wedi'u sefydlu yn barod ar gyfer rôl gynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o fewn cwynion fel yr amlinellir yn Neddf Heddlu a Throseddu 2017		Mae Ffurflen Adolygu nawr ar gael ar wefan SCHTh Dyfed-Powys, a rhoddwyd y cytundeb i gwmni Sancus Solutions Cyf i gynnal pob adolygiad ar ran CHTh. Cytundeb 12 mis ydyw i gychwyn, gyda dewis i'w estyn – cynhelir adolygiad ym mis Chwefror 2021.
Ni ddylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfyngu ar annibyniaeth weithredol yr heddlu	18	Datblygu adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol		Adolygwyd y FfLIC ar gyfer 2020/21 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor Archwilio a'i gyhoeddi'n unol â hynny.
Mynediad at wybodaeth, swyddogion a staff	19	Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi manylion trefniadau rhannu gwybodaeth		Adolygwyd y FfLIC ar gyfer 2020/21 ac fe'i gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor Archwilio a'i gyhoeddi'n unol â hynny.

		Trin gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data		<p>Cofnodwyd 2 achos o dorri rheoliadau amddiffyn eleni. E-bost a anfonwyd at bob derbynydd gan ddangos eu cyfeiriadau e-bost yn hytrach na'u cuddio oedd un. Ni ddatgelwyd unrhyw ddata arall heblaw cyfeiriadau e-bost. Cynghorodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad oeddent yn ystyried bod angen adrodd amdano o dan y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Roedd y llall mewn e-bost hefyd. Y tro hwn, roedd yn cyfeirio at fetio a oedd yn cynnwys enwau pobl nad oedd yn gweithio i'r cwmni. Cofnodwyd y ddau achos yn syth, adalwyd yr e-byst, a hysbyswyd SDD SCHTh. Nid oedd angen unrhyw weithredu pellach ar gyfer y digwyddiadau hyn.</p> <p>Mae'n ofyniad cyfreithiol o'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data fod pob aelod staff yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu data'n flynyddol. Ym mis Chwefror 2020, roedd pob aelod o staff SCHTh yn bresennol mewn diwrnod hyfforddi gyda darparwr allanol er mwyn sicrhau fod hyn yn cael ei gyflawni. Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar y cyd â dau SCHTh arall yng Nghymru, sef Gogledd Cymru a Gwent.</p> <p>Fel corfforaeth undyn, mae SCHTh yn destun ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt: Derbyniwyd 28 cais Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol hon.</p> <p>Roedd SCHTh ond yn dal gwybodaeth ar gyfer 14 o'r ceisiadau hyn. Cyfeiriwyd 2 arall at wefan SCHTh, lle'r oedd y wybodaeth eisoes wedi'i chyhoeddi. Anfonwyd 12 ymlaen at yr heddlu gyda chaniatâd y ceisydd gan fod posibilrwydd eu bod yn dal y wybodaeth.</p>
Cyflenwi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd	20a	Datblygu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Comisiynu a Phartneriaethau		<p>Mae dogfennau comisiynu ar gael, ac fe'u cyhoeddir ar wefan CHTh. Mae darpariaeth gwasanaeth, cyfarfodydd thematig y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a chyllideb a gomisiynwyd yn cyfateb â'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu, sy'n cyfateb â blaenoriaethau strategol y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Gwahoddir darparwyr gwasanaeth i roi cyflwyniadau i'r Bwrdd Ymgynghorol Comisiynu yn rheolaidd er mwyn darparu craffu pellach ar ariannu a gweithgarwch. Bydd mewnbyn i brosiect dioddefwyr yr heddlu a goruchwyliaeth ohono'n galluogi cyflenwi'r argymhellion sy'n weddill o'r Aseiad Anghenion ac adolygiad Goleudy. Mae'r Bwrdd Ymgynghorol Comisiynu wedi'i atal dros dro er mwyn caniatáu adolygiad yn ystod y cyfnod etholiad. Bydd yn cael ei adfer yn awr, a bydd yr aelodaeth a'r cylch gorchwyl yn cael eu hadolygu.</p>
		Comisiynu gwasanaethau i gefnogi diogelwch cymunedol a gostwng trosedd		<p>Mae'r CHTh yn darparu dau draean o gyfanswm y gyllideb gomisiynu o arian craidd, gyda thraean yn dod o grand dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae CHTh dal yn cefnogi gwasanaethau partneriaethau diogelwch cymunedol a Gwasanaethau Atal Troseddau leuenctid drwy roi dros £280,000 i'r partneriaethau. Mae CHTh dal yn sicrhau bod gan ddioddefwyr fynediad at wasanaethau cyfiawnder adferol o safon. Mae dyfodol darpariaeth CA yn cael ei drin drwy brosiect dioddefwyr yr Heddlu, ynghyd â gwelliannau o ran rhannu gwybodaeth a nodwyd gan SCHTh.</p>
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol	20b	Amherthnasol yng Nghymru		
Grantiau gostwng	20c	Datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer darparu		<p>Mae'r broses yn cael ei monitro er mwyn sicrhau bod y broses gyfredol dal yn addas ar gyfer y diben ac mae cymhariaeth yn</p>

trosedd ac anhrefn		grantiau trosedd ac anhrefn		cael ei chynnal o brosesau grant SCHTh eraill Cymru er mwyn sicrhau cysondeb.
		Darparu grantiau gostwng trosedd ac anhrefn yn 2019/20		Nid oes grantiau pellach wedi'u gwobrwyo ers y chwarter diwethaf.
		Gwerthuso grantiau gostwng trosedd ac anhrefn i bennu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad		Bydd proses werthuso'n cael ei sefydlu a'i gweithredu unwaith y bydd rownd bresennol grantiau Cronfa Gymunedol y Comisiynydd wedi gwreiddio.
Cytundebau cydweithio	20ch	Fel y nodir yn 17f		
Cyfrifoldeb ehangach ar gyfer cyfoethogi cyflenwi cyfiawnder troseddol yn yr ardal	20d	Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn darparu gwerth am arian		Mae cyfarfodydd adolygu gwasanaeth wedi parhau, gyda negeseuon atgoffa'n cael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau amseroldeb y strwythur adrodd. Mae'r CHTh a'i dîm wedi ymweld â nifer o wasanaethau sydd wedi'u comisiynu a derbynwyr grant, ac mae blaenamserlen mewn grym. Mae'r adroddiad ar gydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder newydd ei gyflwyno, ac mae paratodau ar gyfer yr adroddiad diwedd blwyddyn yn mynd rhagddynt.
		Cyfraniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i agenda Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan		Darparwyd diweddariad gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys, sy'n tynnu sylw at feysydd llwyddiant allweddol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.
		Cyfrifoldebau portffolio cenedlaethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu		Y Bwrdd Plismona Digidol ac fel rhan o hyn mae'r Comisiynydd yn aelod o'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Bwrdd Gweithlu Trawsnewidiol</li> <li>• Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu</li> <li>• Bwrdd Cwmni TGCh yr Heddlu</li> <li>• Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan</li> <li>• Bwrdd Plismona Cymru</li> <li>• Grŵp Plismona Cymru Gyfan, ac yn 2019/20, ef fydd cadeirydd y grŵp</li> </ul>